O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 614 (Cy. 86)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobshill, i Gyffordd 36A, Parc Manwerthu Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA) 2012

*Gwnaed* *1 Mawrth 2012*

*Yn dod i rym* *12 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35, Dobshill, i Gyffordd 36A, Parc Manwerthu Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau Dros Dro a Therfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA) 2012.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 12 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Mawrth 2012.

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

**<u>Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro</u>**

i) Y darn cyfan o'r gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36, Cyfnewidfa Warren, yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd i bwynt 300 o fetrau i'r gorllewin o'r pwynt lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A, Parc Manwerthu Brychdyn, yn uno â phrif gerbytffordd y gefnffordd.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36, Cyfnewidfa Warren.

## ATODLEN 2

**<u>Terfyn Cyflymder Dros Dro o 40 MYA</u>**

i) Y darn o'r gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 35, Cyfnewidfa Dobs Hill, i bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36, Cyfnewidfa Warren yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36, Cyfnewidfa Warren.